

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 6ed Mawrth 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield JP MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**104. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIAD**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Ms J. Hughes, Mrs D. L. King, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts ac R. J. Turner.

**105. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) AR GYFER 2019/20**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

<b>Cyflenwr a Disgrifiad</b>	<b>Amllder</b>	<b>Dull</b>	<b>Swm Yn cynnwys TAW</b>	<b>Amcangyfrif Am y Flwyddyn</b>	<b>Amcangyfrif Heb gynnwys TAW</b>	<b>Cyllideb Am y flwyddyn</b>
			£	£	£	£
Cyflogau Net Staff Cyngor Tref y Rhyl	Misol	Trosg. Banc	7,200	86,400	86,400	
Didyniadau Cyflog CThEM	Misol	Trosg. Banc	3,000	36,000	36,000	
Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint	Misol	Trosg. Banc	4,350	52,200	52,200	
<b>Cyfanswm ar gyfer Costsu</b>			<b>14,550</b>	<b>174,600</b>	<b>174,600</b>	<b>175,000</b>
Cyngor Sir Ddinbych – Y Dreth Gyngor (10 mis)	Misol	Direct Debit	730	7,300	7,300	7,300
HSBC – Taliadau Banc	Misol	Direct Debit	20	240	240	250
Gunsmoke Communications - CC a Digwyddiadau	Misol	Trosg. Banc	1,660	19,920	19,920	20,000
Sioned Graham-Cameron - TGw Cyfieithu	Misol	Trosg. Banc	200	2,400	2,400	2,500
Cyngor ar Fudd-daliadau – Swyddog Apêl	Misol	Archeb Sefydlog	917	11,000	11,000	11,000
Cymdeithas Gymunedol y Rhyl - CG Tynewydd CC	Chwrt	Archeb Sefydlog	2,625	10,500	10,500	10,500
Sage & Company Gwasanaethau Cyflogres	Chwrt	Anfoneb	93	372	310	350
BT Telephones - Llinellau Cyffredinol a Galwadau	Chwrt	Debyd Uniongyrchol	975	3,900	3,250	3,300
BT Telephones - Band Eang	Chwrt	Debyd Uniongyrchol	120	480	400	400

Shire Leasing - System ffôn Avaya	Chwrt	Debyd Uniongyrchol	360	1,440	1,200	1,200
Neopost - Peiriant Ffrancio	Chwrt	Trosq. Banc	180	720	720	750
Cyngor ar Bopeth - - Gweithiwr Tlodi Tanwydd	Chwrt	Archeb Sefydlog	2,000	8,000	8,000	8,000
Canda Copying – Rhentu Llungopiwr a Thaliadau	Chwrt	Trosq. Banc	540	2,160	1,800	1,800
Benthyciad SC2 Cyngor Sir Ddinbych	Anfoneb	Trosq. Banc	97,866	97,866	97,866	97,865

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen a'i llofnodi gan ddau gynghorydd a Chlerc y Dref.

#### 106. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – CHWEFROR 2019**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
671	Cymdeithas Gymunedol y Rhyl	2,500.00	Ffi Rheoli CG Tynewydd Ch4 2018/19
679	HSBC	7.10	Taliadau banc 17eg Rhagfyr i 16eg Ionawr 2019
655	Cyngor Sir Ddinbych	4,214.51	Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Ionawr 2019
656	CThEM	2,649.15	Didyniadau Cyflog Ionawr 2019
680	Canda Copying	347.62	Rhentu a Thaliadau Copïau Lliw
681	Canda Copying	276.00	Taliadau Copïo Du a Gwyn
682	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,885.33	Cyflogau Staff Cyngor Tref y Rhyl Chwefror 2019
683	Credifon (Neopost)	200.00	Peiriant ffrancio – ychwanegiad
684	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Ionawr 2019
476	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apelio Rhan-amser – Taliad 11 o 12
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£19,436.37</b>	

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

#### 107. **AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
691	Scottish Power	Cyflenwad trydan ar gyfer Goleuadau 2018/19	372.83
692	Dawns Elusen Maer Dinbych	Cyfraniad tocyn x 1 i Gyngerdd Elusen	8.00
693	St John Cymru Wales	Cymorth Cyntaf ar gyfer	60.00

		Digwyddiad Ffilm Nadolig	
694	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Ffi Adnewyddu Flynyddol	35.00
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>			<b>£475.83</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

**108. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN RHAGFYR 2018 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2018/19**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad cynnydd ef a'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

Gofynnodd aelod am ddiweddariad ar y sefyllfa gyda Chanolfan Gymunedol Tynewydd.

Dywedodd Clerc y Dref bod y ganolfan i'w hystyried gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg y mis hwn a bod y swm a dyrannwyd ar gyfer y posibilrwydd o adnewyddu'r ganolfan os bydd y Cyngor Tref yn penderfynu cadw'r ganolfan. Os oedd yn penderfynu ei gwerthu, yna byddai'r swm yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa Prosiectau Mawr.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.

**109. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GORCHYMYN GWAHARDD AROS: CYFFORDD FFORDD RUDDLAN DONALD AVENUE A525**

Adroddodd y Cadeirydd iddo dderbyn y gorchymyn uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i wella gwelededd a diogelwch yn y gyffordd a stopio parcio diwahân.

**PENDERFYNWYD** cydnabod y gorchymyn arfaethedig.

**110. EITEM GAN AELOD: SESIYNAU BLASU SC2**

Gofynnodd y Cynghorydd A. S. Johnson am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr yn cwyno at Gyngor Sir Ddinbych am wahardd teuluoedd mwy i'r sesiynau blasu trwy gyfyngu ceisiadau i deuluoedd o bedwar.

Roedd y Cynghorydd Johnson wedi gofyn i Glerc y Dref gysylltu â'r Cyngor Sir i gyfleu ei siom ac wedi cael gwybod bod y cyfyngiad wedi ei godi. Fodd bynnag, roedd yn rhy hwyr o ran y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

**[Gadawodd y Cynghorydd T Thomas y cyfarfod ar y pwynt hwn]**

Teimlai'r aelodau efallai bod y cyfyngiad oherwydd cymarebau goruchwylio i rwystro'r cynnig rhag cael ei gamddefnyddio?

Aethant ymlaen i ddweud nad oedd yn rhaid i'r Cyngor Sir gynnig sesiynau blasu am ddim i'r cyhoedd, ac mai pwynt y sesiynau oedd profi'r cyfleuysterau cyn agor yn swyddogol i sicrhau bod profiadau cwsmeriaid y gorau y gallent fod.

O roddi'r mater i bleidlais, **PENDERFYNWYD** peidio â chymryd unrhyw gamau.

#### **111. EITEM O WYBODAETH I AELODAU: 'DIGWYDDIAD CYMUNEDOL 999'**

Heddlu Gogledd Cymru wedi cysylltu â'r Cyngor Tref i wahodd yr holl gynghorwyr i'r digwyddiad uchod yng Nghlwb Rygbi'r Rhyl ar 30ain Mai.

Nod y digwyddiad oedd cynyddu ymgysylltiad rhwng y gymuned a'r gwasanaethau argyfwng ac i bobl ifanc ddod i'w hadnabod tra'n cyflwyno neges rhwystro trosedd a negeseuon ar iechyd.

**PENDERFYNWYD** derbyn y gwahoddiad.

#### **112. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

#### **113. DATGANIAD BLYNYDDOL 2017/18**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) ar ôl gohebiaeth Archwiliwr Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliad allanol y Cyngor Tref ar gyfer 2017/18 a gofyn am arweiniad yr aelodau.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r ymateb a gynigiwyd gan Glerc y Dref gan ychwanegu'r cyngor gan Lywodraeth Cymru.

#### **114. AROLWG RISG 2018 A CHYNLLUN AT Y DYFODOL AR GYFER 2019/20**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor a'i gynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2018/19 (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo arolwg 2018 a chynllun 2018/19 yn amodol ar Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg, yn cael eu hawdurdodi i wneud newidiadau priodol i adlewyrchu canlyniad penderfyniad Datganiad Blynyddol 2017/18 y Cyngor gan yr Archwiliwr Cyffredinol.

#### **115. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: .....

Dyddiad: .....